Trwydded Gwasanaeth bbc.co.uk.
Cyhoddwyd 30 Ebrill 2007

bbc.co.uk

Rhan I: Nodweddion allweddol y gwasanaeth

1. Cylch gwaith

Cylch gwaith bbc.co.uk yw cyflawni pwrpasau cyhoeddus y BBC drwy ddarparu cynnwys ar-lein arloesol a nodedig, a thrwy gynigion nodedig sy'n adlewyrchu ac yn ehangu amrywiaeth gwasanaethau darlledu'r BBC, sydd ar gael i bawb.

Dylai bbc.co.uk alluogi'r BBC i ddatblygu cydberthynas ddyfnach â thalwyr ffi'r drwydded ac atgyfnerthu atebolrwydd. Dylai weithredu fel man cychwyn ar y rhyngrwyd sy'n galluogi defnyddwyr i ddatblygu eu defnydd o'r cyfrwng a dylai fod yn ganllaw i'r rhyngrwyd ehangach y gellir ymddiried ynddo.

Dylai bbc.co.uk, ar bob adeg, gydbwyso'r potensial i greu gwerth cyhoeddus yn erbyn y risg o gael effaith negyddol ar y farchnad.

2. Cwmpas y Drwydded

Dylai bbc.co.uk fod ar gael i unrhyw ddyfais y gellir ei defnyddio i gysylltu â'r rhyngrwyd. Dylai gynnwys ystod eang o gynigion, gan gynnwys testun a lluniau ac amrywiaeth o ddeunydd clyweledol byw ac ar alw ynghyd â chymwysiadau a chynnwys y gellir eu llwytho i lawr. Dylai'r gwasanaeth fod ar gael yn barhaus ac am ddim pan y'i defnyddir. Dylai bbc.co.uk gynnwys deunydd o sawl un o wasanaethau cyhoeddus y BBC yn y DU, ynghyd â chynnwys sy'n gysylltiedig â hwy; mae eu Trwyddedau Gwasanaeth eu hunain yn diffinio sut y gellir dosbarthu eu cynnwys.

3. Cyllideb y gwasanaeth

Mae gan bbc.co.uk gyllideb gwasanaeth o £74.2 miliwn yn 2007/08.

Gellir ei haddasu'n flynyddol yn unol â Chwyddiant Prisiau Manwerthu. Mae angen i unrhyw newid arfaethedig neu wirioneddol o ran gwariant blynyddol ar y gwasanaeth sy'n fwy na 10% mewn gwerth real gael ei gymeradwyo gan Ymddiriedolaeth y BBC a gall olygu bod angen newid y Drwydded Gwasanaeth hon.

4. Trosolwg o nodau ac amcanion

Dylai cynnwys bbc.co.uk feddu ar rai o'r nodweddion canlynol neu bob un ohonynt: ansawdd uchel, gwreiddiol, heriol, arloesol ac yn ymgysylltu â'r defnyddiwr, a dylai feithrin talent ledled y DU.

Dylai gyflawni ei gylch gwaith drwy gyfrannu at holl bwrpasau cyhoeddus y BBC, gan roi blaenoriaeth i'r pwrpasau sy'n ymwneud â dinasyddiaeth ac addysg.

Yn amodol ar werth am arian a chyfyngiadau eraill, dylai bbc.co.uk alluogi defnyddwyr i ddod o hyd i gynnwys y BBC yn y modd maent yn ei ddymuno, ar yr adeg maent yn ei dymuno, ac ar ba lwyfan bynnag neu drwy ba ddyfais bynnag a ddewisir ganddynt. Dylai sicrhau bod cynnwys y BBC mor hawdd i'w ddefnyddio â phosibl, gan eu galluogi i ddod o hyd i'r hyn maent yn chwilio amdano yn gyflym tra'n cymryd camau rhesymol i ddiogelu defnyddwyr rhag gwefannau a deunydd amhriodol neu sarhaus. Dylai annog defnyddwyr i lywio drwy holl gynnwys bbc.co.uk er mwyn ehangu eu defnydd o'r cyfryngau. Yn arbennig, dylai weithredu fel canllaw i'r rhyngrwyd y gellir ymddiried ynddo, gan gysylltu defnyddwyr yn aml ac yn gyson â gwefannau allanol perthnasol sydd â gwerth cyhoeddus uchel na fyddent fel arall efallai wedi eu gweld. Dylai deilwra a gwella cynhyrchion a gwasanaethau chwilio a llywio presennol.

Dylai bbc.co.uk gyhoeddi cynnwys a grëir ganddo o ganlyniad naturiol i gynyrchiadau teledu neu radio. Dylai gyfuno prif fentrau darlledu ac allbwn y BBC â chynnwys cyhoeddedig, rhyngweithiol a grëwyd gan ddefnyddwyr, gan ffurfio rhan o gynigion traws-gyfrwng sy'n cyfrannu at hyrwyddo'r pum pwrpas cyhoeddus. Dylai ddarparu cynnwys sy'n uniongyrchol seiliedig ar raglenni teledu a radio gwreiddiol, yn ogystal â chyd-destun ar gyfer rhaglenni a dulliau defnyddio, megis dulliau llywio.

Dylai bbc.co.uk archwilio ffyrdd newydd o fanteisio ar nodweddion unigryw'r rhyngrwyd i ddarparu cynnwys a gwasanaethau adloniant arloesol a nodedig, a grëwyd yn benodol ar gyfer y rhyngrwyd.

Dylai ddarparu gwasanaeth cynhwysfawr o newyddion a dadansoddiadau diduedd, cywir ac annibynnol sy'n cwmpasu digwyddiadau a materion cenedlaethol a rhyngwladol. Dylai fuddsoddi mewn cynnwys sy'n creu gwerth addysgol i ysgolion, plant, rhieni ac athrawon a dylai gynnig deunydd i ategu dysgu gydol oes ymhlith oedolion. Dylai bbc.co.uk anelu at ddarparu amgylchedd ar-lein diogel i gymunedau â diddordeb cyffredin neu gymunedau daearyddol.

Dylai bbc.co.uk annog defnyddwyr i greu eu cynnwys eu hunain, yn enwedig deunydd sy'n creu gwerth democrataidd, addysgol, cymdeithasol a chymunedol. Dylai bbc.co.uk annog pobl i ddefnyddio'r rhyngrwyd drwy brosiectau llythrennedd y cyfryngau digidol.

Trwydded Gwasanaeth bbc.co.uk.
Cyhoddwyd 30 Ebrill 2007

Dylai alluogi talwyr ffi'r drwydded i roi eu sylwadau i'r BBC ar raglenni, gwasanaethau a strategaethau presennol ynghyd â rhai'r dyfodol. Dylai archwilio potensial y rhyngrwyd i alluogi deialog rhwng y BBC a'i gynulleidfaoedd. Ni ddylai werthu data defnyddwyr, na throsglwyddo data defnyddwyr i drydydd parti heb gymeradwyaeth benodol defnyddwyr, oni bai bod hynny'n ofynnol o dan gyfraith y DU.

Yn amodol ar y cymeradwyaethau perthnasol, dylai bbc.co.uk alluogi defnyddwyr i gael gafael ar raglennu teledu a radio'r BBC ar alw ynghyd â darparu rhai o archifau cynnwys y BBC at ddefnydd creadigol. Dylai twf y gwasanaeth yn y dyfodol ganolbwyntio ar gynigion arloesol a nodedig sy'n cefnogi pwrpasau cyhoeddus y BBC ac yn helpu i hyrwyddo gwasanaethau ar-lein a band eang.

Bob blwyddyn bydd rheolwyr y BBC yn adolygu portffolio golygyddol y gwasanaeth ac yn cyflwyno adroddiad i Ymddiriedolaeth y BBC ar unrhyw newidiadau mawr i gynigion neu achosion o'u diddymu pan nad ydynt yn bodloni meini prawf golygyddol o ran bod yn nodedig neu o ran ansawdd.

Dylai bbc.co.uk gomisiynu swm gofynnol o gynnwys a gwasanaethau gan gyflenwyr allanol.

Rhan II: Cyfraniad i werth cyhoeddus

5. Cyfraniad i hyrwyddo pwrpasau cyhoeddus y BBC[1]

5.1 Cynnal dinasyddiaeth a chymdeithas waraidd

Dylai bbc.co.uk wneud cyfraniad pwysig iawn i'r pwrpas hwn ymhlith ei ddefnyddwyr, yn bennaf trwy ddarparu gwasanaeth newyddion cywir, diduedd ac annibynnol sy'n gynhwysfawr ac a ddiweddarir yn gyson. Dylid gosod digwyddiadau newyddion allweddol mewn cyd-destun, drwy ddefnyddio dadansoddiadau gan ohebwyr y BBC, gyda thestun, delweddau, graffeg, sain a fideo. Dylai gynnwys meysydd pwnc arbenigol a darparu canllawiau i faterion allweddol y dydd.

Dylai bbc.co.uk ategu darllediadau newyddion y BBC ar draws pob pwnc, gan gynnwys chwaraeon a newyddion lleol. Dylai gyd-ddarlledu newyddion teledu a radio a chynnig prif fwletinau newyddion teledu a radio'r BBC, pecynnau penawdau detholedig a rhai rhaglenni materion cyfoes ar alw.

Dylai annog y gynulleidfa i gymryd rhan drwy gynnal trafodaethau ar faterion pwysig a galluogi defnyddwyr i gyflwyno testun a fideo sy'n gysylltiedig â newyddion.

Dylai bbc.co.uk annog pobl i ddefnyddio'r rhyngrwyd, gan gynnwys drwy brosiectau llythrennedd y cyfryngau digidol, a thrwy hynny wneud cyfraniad sylweddol i DU ddigidol. Dylai gynorthwyo defnyddwyr newydd drwy roi cyngor iddynt ac anelu at wella eu hyder, gan yn enwedig helpu'r cynulleidfaoedd hynny sy'n wynebu'r risg o gael eu gadael ar ôl yn yr oes ddigidol. Dylai feithrin cromlin ddysgu o ran sut i ddefnyddio gwasanaethau rhyngweithiol, gan annog cynulleidfaoedd i symud o ddefnydd goddefol i ddefnydd ar-lein gweithredol.

5.2 Hyrwyddo addysg a dysgu

Dylai bbc.co.uk wneud cyfraniad pwysig iawn i'r pwrpas hwn ymhlith ei ddefnyddwyr. Dylai gynnig rhywbeth o werth addysgol i bobl o bob oed.

[1] Pan gaiff Cylchoedd Gwaith Pwrpas eu mabwysiadu gan Ymddiriedolaeth y BBC yn 2007, bydd y Drwydded Gwasanaeth hon yn nodi sut y bydd y gwasanaeth hwn yn cyfrannu at y gwaith o hyrwyddo blaenoriaethau perthnasol a nodir mewn Cylchoedd Gwaith Pwrpas.

Dylai fuddsoddi mewn cynnwys sy'n creu gwerth addysgol i ysgolion, plant, rhieni ac athrawon. Dylai barhau i ddatblygu gwasanaeth cynhwysfawr i blant, fel un o'i flaenoriaethau allweddol, er mwyn sicrhau bod cynnwys ar-lein yn y DU ar gael i blant, a anelir at ganlyniadau dysgu a hyrwyddo defnydd mwy diogel o'r rhyngrwyd.

Dylai bbc.co.uk hefyd fuddsoddi mewn cynnwys i oedolion gan fynd ar drywydd dysgu ffurfiol ac anffurfiol a defnyddio testun, delweddau, graffeg, sain a fideo, cymwysiadau rhyngweithiol a chynnwys a grëwyd gan ddefnyddwyr.

Dylai bbc.co.uk ychwanegu mwy o ddyfnder at allbwn darlledu'r BBC mewn meysydd fel sgiliau sylfaenol yn cynnwys rhifedd a llythrennedd, ieithoedd, hanes, gwyddoniaeth, byd natur, crefydd, moeseg a'r celfyddydau, yn ogystal â ffordd o fyw a hamdden. Dylai cynnwys ffordd o fyw ganolbwyntio ar ddarparu cynnwys â chyswllt agos â rhaglenni teledu neu radio'r BBC.

5.3 Adlewyrchu gwledydd, rhanbarthau a chymunedau'r DU

Dylai bbc.co.uk wneud cyfraniad pwysig i'r pwrpas hwn ymhlith ei ddefnyddwyr. Dylai ei wasanaethau newyddion ymdrin â digwyddiadau a materion allweddol yng ngwledydd a rhanbarthau'r DU a darparu cipolwg ar gymunedau lleol y DU. Dylai ddarparu a datblygu gwasanaethau ym mhrif ieithoedd brodorol y DU.

Dylai annog cynnwys a grëir gan ddefnyddwyr gan ddarparu gwybodaeth a chynnwys ffeithiol sy'n helpu i adeiladu cymunedau lleol. Dylai chwarae rhan bwysig yn y gwaith o alluogi cymunedau i gyfathrebu yn ogystal â galluogi'r rhai sy'n rhannu diddordebau i gyfathrebu a thrwy alluogi cynulleidfaoedd i weld cynnwys a chyfrannu ato. Dylai gefnogi cymunedau defnyddwyr a, thrwy hynny, gefnogi arloesedd cymdeithasol, drwy annog defnyddwyr i greu safleoedd a phrosiectau a defnyddio safonau agored sy'n galluogi defnyddwyr i ddod o hyd i gynnwys y BBC ac ailbennu pwrpas iddo mewn ffyrdd mwy hyblyg.

Dylai rhannau lleol o'r safle weithio'n effeithiol gyda darparwyr newyddion a gwybodaeth leol eraill, gan ganfod neu rannu cynnwys a lleihau achosion o ddyblygu lle ceir gorgyffwrdd, fel amserlenni lleol.

Dylai cynnwys chwaraeon adlewyrchu ehangder a dyfnder darllediadau chwaraeon y BBC. Dylai anelu at ddyfnhau cydberthynas y BBC â'i gynulleidfa mewn perthynas ag amrywiaeth o chwaraeon, o ddigwyddiadau mawr i ddigwyddiadau â nifer fach o ddilynwyr.

5.4 Ysgogi creadigrwydd a rhagoriaeth ddiwylliannol

Dylai bbc.co.uk wneud cyfraniad pwysig i'r pwrpas hwn ymhlith ei ddefnyddwyr. Dylai gynnig cynnwys ar-lein nodedig ac arloesol a cheisio ategu allbwn darlledu'r BBC gyda darpariaeth ryngweithiol hefyd .

Dylai gefnogi buddsoddiad y BBC mewn drama, comedi ac adloniant newydd drwy ddarparu clipiau ychwanegol, pytiau rhagflas a deunydd arall ar alw. Dylai gyd-ddarlledu rhaglennu radio a chynnig rhaglenni radio ar alw. Dylai addysgu defnyddwyr am y broses greadigol o wneud ffilmiau a galluogi defnyddwyr i rannu eu ffilmiau eu hunain a chynnwys sy'n gysylltiedig â ffilmiau.

Dylai bbc.co.uk archwilio ffyrdd newydd o fanteisio ar nodweddion unigryw'r rhyngrwyd i ddarparu cynnwys a gwasanaethau adloniant arloesol a nodedig, a grëwyd yn benodol ar gyfer y rhyngrwyd. Dylai annog defnyddwyr i greu, ailgymysgu a rhannu eu cynnwys eu hunain a'u cynorthwyo i wneud hyn. Dylai hefyd annog defnyddwyr i ddatblygu cymunedau cydweithredol o arloeswyr proffesiynol ac amaturiaid cyfranogol.

Dylai chwarae rhan bwysig fel un o brif ddarparwyr cynnwys ar-lein a gynhyrchwyd yn y DU ac sy'n ddiwylliannol berthnasol.

Dylai bbc.co.uk gefnogi sector cyfryngau newydd y DU drwy ffurfio partneriaethau sy'n rhoi mwy o werth cyhoeddus i dalwyr ffi'r drwydded drwy sicrhau argaeledd ehangach cynnwys y BBC, cysylltu cynulleidfaoedd y BBC ag ystod ehangach o dalent a chreadigrwydd o'r DU, a thrwy gefnogi arloesedd a thwf ym marchnad ar-lein y DU. Dylai gysylltu â chynnwys gan ddarparwyr eraill ac anelu at gynyddu nifer yr achosion o fynd i safleoedd allanol o bob rhan o'r gwasanaeth.

Dylai gomisiynu cynnwys a gwasanaethau nodedig a gwreiddiol gan gyflenwyr allanol. Dylai'r gwaith comisiynu hwn alluogi bbc.co.uk i ddefnyddio ystod ehangach o dalent greadigol a thechnegol, helpu i bennu llinell sylfaen ar gyfer effeithlonrwydd o fewn y BBC a chyfrannu at ddatblygu'r sector cyfryngau newydd ehangach.

Amodau
Dylai bbc.co.uk:

- Gomisiynu o leiaf 25% (yn ôl gwerth) o gynnwys a gwasanaethau cymwys gan gyflenwyr allanol

5.5 Cyflwyno'r DU i'r byd a'r byd i'r DU

Dylai bbc.co.uk gyfrannu at y pwrpas hwn ymhlith ei ddefnyddwyr, yn bennaf drwy gyflwyno'r byd i'r DU, drwy ddarllediadau cynhwysfawr o ddigwyddiadau a materion newyddion rhyngwladol allweddol.

5.6 Dulliau cyfathrebu newydd

Diffinnir chweched pwrpas cyhoeddus y BBC yn y Siarter fel a ganlyn sef wrth hyrwyddo ei bwrpasau eraill, helpu i gyflwyno i'r cyhoedd fuddiannau technolegau a gwasanaethau cyfathrebu newydd ac, yn ogystal, chwarae rhan flaenllaw yn y broses o newid i deledu digidol.

Dylai bbc.co.uk gyfrannu at y gwaith o hyrwyddo'r pwrpas hwn mewn amryw o ffyrdd gan gynnwys helpu i feithrin dealltwriaeth o fathau newydd o gynnwys a dulliau dosbarthu, ynghyd â hyrwyddo'r defnydd ohonynt. Dylai holl elfennau bbc.co.uk chwarae rhyw ran yn y gwaith o gyflawni'r pwrpas hwn.

6. Atodiadau i'r Drwydded hon

6.1 Atodiad I – Asesu perfformiad

Bydd perfformiad bbc.co.uk yn cael ei asesu gan yr Ymddiriedolaeth drwy ddefnyddio'r fframwaith a ddisgrifir yn Atodiad I. Bydd cydymffurfiaeth bbc.co.uk ag unrhyw Amodau, fel y'u disgrifir yn adran 5, hefyd yn cael ei mesur yn flynyddol a'i chyflwyno yn yr Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon.

Bydd Ymddiriedolaeth y BBC yn disgwyl i bbc.co.uk gydymffurfio â'r ymrwymiadau a ddisgrifir yn adrannau 4 a 5 o'r Drwydded Gwasanaeth. Bydd Ymddiriedolaeth y BBC yn monitro cydymffurfiaeth â'r ymrwymiadau hyn yn ôl-weithredol fel rhan o'i harolygon cyfnodol o'r gwasanaeth ac/neu fel eithriad os oes tystiolaeth neu honiad o ddiffyg cydymffurfio.

6.2 Atodiad II - Trin cymeradwyaethau gwasanaeth yn y Drwydded Gwasanaeth

Mae Atodiad II yn nodi'r amodau a osodwyd ar y BBC gan yr Ysgrifennydd Gwladol wrth gymeradwyo bbc.co.uk a'r ymrwymiadau a gynigiwyd gan y BBC fel rhan o'i gais am gymeradwyaeth (colofn I o'r tabl). Mae Colofn II o'r tabl hwn yn nodi sut mae'r Drwydded Gwasanaeth hon yn bodloni gofyniad y Siarter[2] fod yn rhaid i'r Drwydded Gwasanaeth ymgorffori effaith unrhyw amodau sy'n gymwys i ddarparu'r gwasanaeth hwnnw drwy rinwedd unrhyw gymeradwyaeth ar gyfer ei ddarparu a roddir gan yr Ysgrifennydd Gwladol o dan Siarter 1996 neu Gytundeb 1996.

7. Gweithredu'r drwydded hon gan Ymddiriedolaeth y BBC

Am fanylion ynghylch sut mae Ymddiriedolaeth y BBC yn gweithredu'r Drwydded Gwasanaeth hon, gweler y Fframwaith ar gyfer Gweithredu Trwyddedau Gwasanaeth. Mae hwn ar gael yn www.bbc.co.uk/bbctrust neu ar gais gan Uned Ymddiriedolaeth y BBC.

[2]Paragraff 9(3)(9) o'r Atodlen i'r Siarter

Atodiad I: Fframwaith mesur perfformiad

Cyflwyniad

Mae Ymddiriedolaeth y BBC yn gyfrifol am asesu perfformiad y Bwrdd Gweithredol yn y gwaith o ddarparu gwasanaethau a gweithgareddau'r BBC ac mae'n dal y Bwrdd Gweithredol i gyfrif am ei berfformiad.[3] Bydd yn defnyddio'r fframwaith a ddisgrifir isod fel sail i'w hasesiad o bbc.co.uk.

Mae'r fframwaith yn seiliedig ar bedair elfen gwerth cyhoeddus: Cyrhaeddiad, Ansawdd, Effaith a Gwerth am arian ac mae'n cynnwys mesur y pum nodwedd o ran cynnwys fel y'u disgrifir yng Nghytundeb y BBC[4]: ansawdd uchel, heriol, gwreiddiol, arloesol ac yn ymgysylltu â'r gynulleidfa.

Gall yr Ymddiriedolaeth newid y fframwaith hwn heb i hyn fod yn gyfystyr â newid y Drwydded Gwasanaeth hon yn ffurfiol.

Fframwaith mesur perfformiad

Cyrhaeddiad: Dylai bbc.co.uk gyfrannu at gynnal cyrhaeddiad wythnosol cyfun y BBC[5] o dros 90% drwy anelu at gynnal ei *gyrhaeddiad wythnosol* ei hun.
Ansawdd: *cymeradwyaeth* y gynulleidfa o bbc.co.uk a'i chanfyddiadau ohono fel gwasanaeth *o ansawdd uchel* ac *arloesol*.
Effaith: *ymwybyddiaeth* talwyr ffi'r drwydded o bbc.co.uk a chanfyddiadau'r gynulleidfa o bbc.co.uk fel gwasanaeth sy'n *ymgysylltu â'r defnyddiwr* ac sy'n *heriol*.
Gwerth am arian: *Cost* bbc.co.uk *fesul defnyddiwr a gyrhaeddir*.

[3] Siarter, erthygl 24 (c)
[4] Cytundeb, cymal 14
[5] Ar gyfer holl wasanaethau'r BBC

Trwydded Gwasanaeth bbc.co.uk.
Cyhoddwyd 30 Ebrill 2007

Atodiad II

iPlayer y BBC

Rhan I: Nodweddion allweddol y gwasanaeth

1. Cylch gorchwyl

Dylai iPlayer y BBC anelu at gynnal cyrhaeddiad, lefelau defnydd a gwerth am arian cynnyrch radio a theledu gwasanaeth cyhoeddus y BBC, a dylai hefyd gynyddu effaith y cynnyrch. Dylai wneud hyn drwy gynnig mwy o ddewis i rai sy'n talu'r tâl trwydded a mwy o reolaeth dros y modd y derbyniant gynnyrch y BBC. Dylai geisio cynyddu'r gynulleidfa i raglenni arbenigol. Wrth wneud hynny, dylai helpu i sicrhau bod talwyr trwydded yn dal i weld bod y BBC yn berthnasol wrth i'w patrymau defnyddio'r cyfryngau newid.

2. Cwmpas y Drwydded hon

Ceir mynediad at iPlayer y BBC drwy bbc.co.uk. Gall ddarlledu cynnyrch gwasanaeth teledu a radio'r BBC yn gydamserol dros rwydweithiau protocol rhyngrwyd sefydlog a symudol. Gall hefyd gynnig rhaglenni teledu a radio'r BBC ar y rhyngrwyd am saith diwrnod wedi iddynt gael eu darlledu, a rhoi 30 diwrnod i ddefnyddwyr fynd at y rhaglenni wedi iddynt eu lawrlwytho. Gall ganiatáu i ddefnyddwyr lawrlwytho penodau lluosog o hyd at 15% o gyfresi teledu ar-alwad wedi iddynt gael eu darlledu ('stacio cyfresi'),[6] i fynd atynt o fewn 30 diwrnod i'w lawrlwytho. Gall ganiatáu i ddefnyddwyr wylio neu wrando ar ddeunydd a lawrlwythwyd am hyd at saith diwrnod ar ôl mynd ato gyntaf.

Gall hefyd gynnig deunydd a ddarlledwyd ar y radio i'w lawrlwytho am gyfnod diderfyn ar ôl ei ddarlledu, er na chaiff hyn gynnwys darlleniadau cyflawn o weithiau sydd wedi'u cyhoeddi na thraciau llawn o gerddoriaeth fasnachol na cherddoriaeth glasurol (hyd yn oed os mai'r BBC a'i recordiodd).[7] Nodir y defnyddir iPlayer y BBC hefyd i ddarparu cynnyrch a ddarperid eisoes gan bbc.co.uk ar 1 Ionawr 2007 nad oedd yn destun y gymeradwyaeth a roddwyd gan Ymddiriedolaeth y BBC yn Ebrill 2007. Nid yw darpariaethau'r Atodiad hwn yn ymestyn i'r cynnyrch hwnnw sy'n bodoli eisoes.

[6] Rhoddir manylion y math o raglenni a all gael eu cynnwys yn y broses stacio cyfresi yn y Trwyddedau Gwasanaeth ar gyfer pob gwasanaeth teledu.
[7] Caniateir lawrlwytho cerddoriaeth glasurol ar ffurf cerddoriaeth gefndir neu arwydd-donau.

3. Y Gyllideb

Mae gan iPlayer y BBC gyllideb gwasanaeth o £4.0 miliwn yn 2007/08. Mae hyn yn cynnwys costau gweithredu'r gwasanaeth yn ganolog, sy'n ymwneud yn bennaf â'r dechnoleg. Yn ogystal â'r gyllideb hon, gall iPlayer y BBC wario cyfanswm o £4.8 miliwn yn y cyfnod pedair blynedd hyd at 2010/11 ar adeiladu allan/datblygu'r gwasanaeth.

Gellir addasu cyllideb y gwasanaeth yn flynyddol ar gyfer Chwyddiant Prisiau Manwerthu. Rhaid i unrhyw newid arfaethedig neu wirioneddol yn y gwariant blynyddol ar y gwasanaeth sy'n fwy na 10% mewn gwerth go iawn gael ei gymeradwyo gan Ymddiriedolaeth y BBC a gall olygu newid y Drwydded Wasanaeth hon.

4. Crynodeb o nod ac amcanion

Dylai iPlayer y BBC alluogi talwyr tâl trwydded i fynd at raglenni'r BBC yn gyflym, yn hawdd ac mewn fformat o ansawdd uchel. Wrth wneud hynny, dylai anelu at gael ei weld fel gwasanaeth BBC o ansawdd uchel gan ei ddefnyddwyr, fel ei fod yn cyfrannu at eu cymeradwyaeth o'r BBC.

Dylai iPlayer y BBC anelu at gynnal lefelau cyrhaeddiad a defnydd cyffredinol y BBC, wrth i'r defnydd ar wasanaethau unionlin y BBC gael ei ddisodli gydag amser gan ddefnydd ar-alwad. Wrth wneud hynny, dylai gyfrannu yn y tymor hir at uchelgais y BBC i ddarparu gwasanaethau sydd o werth i bawb sy'n talu'r tâl trwydded. Dylai anelu o leiaf at gynnal y defnydd ar gynnyrch y BBC gan oedolion iau (y rhai 16-34 oed).

Dylai rhyngwyneb defnyddwyr iPlayer y BBC a'r hyn y mae'n ei gynnig fel cyd-destun anelu at hyrwyddo deunydd gwasanaeth cyhoeddus, gan gynnwys deunydd o ddiddordeb arbenigol, a helpu'r BBC i gynyddu cyrhaeddiad y rhaglenni hyn a'r nifer sy'n eu cymryd. Dylai geisio cyflawni hyn mewn amrywiaeth o ffyrdd gan gynnwys swyddogaethau chwilio, llywio ac argymell, y swyddogaeth stacio cyfresi a gweithgareddau hyrwyddo.

Dylai'r swyddogaeth stacio cyfresi ganolbwyntio ar gyfresi sydd â rhediad pendant iddynt, gyda dechrau a diwedd a stori gyflawn, neu rai a gafodd effaith eithriadol o uchel. Dylai ymdrin ag amrediad eang o gynnyrch. Dylai anelu at alluogi'r BBC i gynnal y gwerth am arian a gaiff am ei fuddsoddiad mewn cynnwys ar lefel uwch na phe na chynigid rhaglenni ar alwad.

Dylai rhaglenni gael eu cynnig am ddim yn y pwynt defnydd heb ddim hysbysebion. Dylai iPlayer y BBC ymgorffori swyddogaethau sy'n sicrhau y gellir gwarchod plant

rhag cynnwys anaddas. Dylai hefyd ddarparu mynediad digonol i bobl â nam synhwyraidd, gwybyddol neu gorfforol o fewn graddfa amser resymol.

Wrth gyflawni'i nod a'i amcanion eraill, dylai iPlayer y BBC anelu at gyfrannu at y twf yn y defnydd o gyfryngau cyfoethog mewn cartrefi band llydan. O fewn graddfa amser resymol, dylai anelu at ddarparu'r gwasanaeth dal i fyny â chynnyrch saith diwrnod ar sail platfform-niwtral, neu o leiaf ei ddarparu ar bob prif blatfform yn amodol ar ystyriaethau gwerth am arian ac fel y bydd y dechnoleg yn caniatáu.

Rhan II: Fframwaith mesur perfformiad

Cyrhaeddiad:

Dylai iPlayer y BBC gyfrannu tuag at gynnal cyrhaeddiad wythnosol cyfunedig y BBC[8] ar dros 90% drwy anelu at adeiladu ei gyrhaeddiad wythnosol ei hun. Mesurir hyn drwy gyfeirio at:

- dal i fyny ar deledu saith diwrnod dros y rhyngrwyd – cyrhaeddiad wythnosol ymhlith pob cartref sydd â theledu;
- darlledu deunydd teledu yn gydamserol dros y rhyngrwyd – cyrhaeddiad wythnosol ymhlith pob cartref sydd â theledu;
- deunydd sain heb DRM i'w lawrlwytho dros y rhyngrwyd – cyrhaeddiad wythnosol ymhlith pob cartref yn y Deyrnas Unedig;
- Dylai *cyrhaeddiad* iPlayer y BBC *ymysg oedolion iau (y rhai 16-34 oed)* gyfrannu at gynnal cyrhaeddiad wythnosol y BBC;
- *cyrhaeddiad* a *derbyniad rhaglenni arbenigol*, o gymharu â'u cyrhaeddiad a'u derbyniad ar wasanaethau unionlin.

Ansawdd:

Bod y gynulleidfa'n *cymeradwyo* iPlayer y BBC ac yn ei weld fel gwasanaeth o *ansawdd uchel*, ar sail ei ansawdd technegol ac ymarferoldeb ei ryngwyneb defnyddwyr.

Effaith:

[8] I holl wasanaethau'r BBC.

Trwydded Gwasanaeth bbc.co.uk.
Cyhoddwyd 30 Ebrill 2007

Caiff *ymwybyddiaeth* y gynulleidfa o iPlayer y BBC yn gyffredinol, a'i swyddogaethau penodol, ei wylio.

Gwerth am arian:

Dylai cost y gwasanaethau darlledu fesul awr defnyddiwr gynnwys defnydd ar alwad a chyfanswm gwariant y gwasanaeth yn cynnwys costau'r gwasanaeth ar-alwad. Ni fyddir yn tracio cost cyffredinol iPlayer y BBC fesul awr defnyddiwr.

Trwydded Gwasanaeth bbc.co.uk.
Cyhoddwyd 30 Ebrill 2007

Atodiad III: Cymeradwyo gwasanaeth

Mae'r Atodiad hwn yn rhestru'r ymrwymiadau a wnaed gan y BBC yn dilyn arolwg yr Ysgrifennydd Gwladol dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon o'r gwasanaeth, a arweiniwyd gan Philip Graf, yn 2004. Mae'r rhain yn ffurfio'r gymeradwyaeth gwasanaeth a ddiweddarwyd ar gyfer y gwasanaeth hwn.

Nod y rhestr yw darparu crynodeb o elfennau allweddol y gymeradwyaeth. Mae'r ddogfen Ymateb gyfan yn 28 tudalen o hyd ac mae'r rhestr hon yn hepgor sylwadau eglurhaol, enghreifftiau ac unrhyw ymrwymiadau unigryw a oedd yn unigryw ac sydd bellach yn hanesyddol o ganlyniad i hynny.

Mae'r ddogfen sy'n gyfystyr â chwmpas llawn y gymeradwyaeth ar gael yn www.bbc.co.uk/bbctrust neu ar gais gan Uned Ymddiriedolaeth y BBC.

Ymrwymiadau a wnaed gan y BBC yn ei Ymateb i arolwg Graf

Gwnaed yr ymrwymiadau hyn ym mis Hydref 2004.

Ymrwymiad	**Sut yr ymgorfforir effaith yr ymrwymiad hwn yn y Drwydded Gwasanaeth hon**
Adran 2. Cylch gwaith diwygiedig gwasanaeth ar-lein y BBC Pedair elfen, neu gonglfeini, y cylch gwaith newydd yw:	Nodir pedwar pwynt isod ynghyd ag ymrwymiadau manwl a wnaed o dan bob un.
i. Cyflawni pum pwrpas cyhoeddus y BBC drwy ddarparu cynnwys ar-lein arloesol a nodedig, sydd ar gael i bawb:	Cynhwysir yn adran 1, cylch gwaith.
Bydd y gwasanaeth ar-lein yn cyfrannu at y pum ffynhonnell gwerth cyhoeddus a grëwyd gan y BBC. Cyflawni gwerth democrataidd a gwerth addysgol fydd prif bwrpasau bbc.co.uk.	Cynhwysir yn adran 4.
Bydd y BBC yn cynnig cynnwys cyhoeddedig gan gynnwys testun a grëir ganddo o ganlyniad naturiol i gynyrchiadau teledu neu radio.	Cynhwysir yn adran 4.

Nod y BBC yw sicrhau bod ei gynnwys ar gael i'r gynulleidfa ehangaf bosibl ble bynnag neu bryd bynnag y maent am ei gael. Er mwyn darparu cynnwys arloesol a nodedig, bydd y BBC yn: • Darparu gwasanaeth newyddion a gwybodaeth ar-lein a anelir yn bennaf at greu gwerth democrataidd ac ymgysylltiad dinesig ac sy'n cynnwys testun, delweddau, graffeg, sain a fideo yn bennaf. Bydd hyn yn ategu darllediadau newyddion y BBC ar draws pob pwnc, gan gynnwys chwaraeon a newyddion lleol • Buddsoddi mewn cynnwys sy'n creu gwerth addysgol i ysgolion, plant, rhieni ac athrawon ac i oedolion sy'n dysgu mewn modd ffurfiol ac anffurfiol, gan ddefnyddio testun, delweddau, graffeg, sain a fideo, cymwysiadau rhyngweithiol a chynnwys a grëwyd gan ddefnyddwyr • Annog cynnwys a grëwyd gan ddefnyddwyr, gan roi blaenoriaeth i ddeunydd sy'n creu gwerth democrataidd, addysgol, cymdeithasol a chymunedol • Bydd hyn yn golygu darparu rhwydwaith o wybodaeth leol a chynnwys ffeithiol i hwyluso'r gwaith o adeiladu cymunedau lleol • Yn ogystal, bydd y BBC yn meithrin cromlin ddysgu o ran sut i ddefnyddio gwasanaethau	Cynhwysir yn adran 4. Cynhwysir yn adran 5.1. Cynhwysir yn adran 5.2. Cynhwysir yn adran 4.

rhyngweithiol, gan annog cynulleidfaoedd i symud o ddefnydd goddefol i ddefnydd ar-lein gweithredol	
• Parhau i ddatblygu gwasanaeth cynhwysfawr i blant, fel un o'i flaenoriaethau allweddol, er mwyn sicrhau bod cynnwys Prydeinig ar gael i blant ar y rhyngrwyd, a anelir at ganlyniadau dysgu a hyrwyddo defnydd mwy diogel o'r rhyngrwyd ehangach	Cynhwysir yn adran 5.3. Cynhwysir yn adran 5.1
• Cynnig rhaglennu teledu a radio'r BBC ar alw, o'r gorffennol a'r presennol.	
• Archwilio ffyrdd newydd o fanteisio ar nodweddion unigryw'r rhyngrwyd i ddarparu cynnwys a gwasanaethau adloniant arloesol a nodedig, a grëir yn benodol ar gyfer y rhyngrwyd ac sy'n cyflawni gwerth diwylliannol a chreadigol	Cynhwysir yn adran 5.2
• Creu rhwydweithiau o gynnwys i ategu mentrau pwysig. Bydd y BBC yn parhau i ddatblygu cynigion traws-gyfrwng ag agweddau teledu/radio ac ar-lein, sy'n cyfrannu at bum ffynhonnell gwerth cyhoeddus	Cynhwysir yn adran 4.
• Cynyddu'r buddsoddiad o ran darparu cyd-destun ar gyfer yr holl gynnwys a gynigir (rhaglenni a deunydd ar-lein gwreiddiol), gan gynnwys llywio, tudalennau porth, cysylltiadau â chynnwys arall a gwefannau eraill, ffyrdd o archebu cynnwys, hidlwyr, peiriannau a dulliau chwilio,	Cynhwysir yn adran 5.4.

gwasanaethau argymell, dulliau o roi trefn ar ddata, ei arbed ac ychwanegu ato ynghyd â dulliau eraill o drin a thrafod data • Darparu cynnwys sy'n uniongyrchol seiliedig ar raglenni teledu a radio gwreiddiol (taflenni ffeithiau ar-lein sy'n llawn cynnwys) • Cyfrannu at broses y BBC o greu gwerth byd-eang: fel llwyfan i gynnwys byd-eang... • …yn fwyaf arwyddocaol ar gyfer y gwasanaeth Newyddion rhyngwladol, y mae World Service yn talu amdano... • …ond hefyd drwy ddenu'r cynulleidfaoedd rhyngwladol sy'n dod at yr hyn a gynigir gennym i gynulleidfa'r DU y tu hwnt i newyddion fel llwyfan byd-eang i gyfranogi - gan ysgogi trafodaeth fyd-eang ar y materion mwyaf arwyddocaol ym mywydau ein cynulleidfa fyd-eang.	Cynhwysir yn adran 4. Cynhwysir, ar ffurf gryno, yn adran 4. Cynhwysir yn adran 4. Cynhwysir yn adran 5.5. Nid yw cyfeirio at y safle rhyngwladol o fewn cwmpas Trwydded Gwasanaeth bbc.co.uk am nad yw'n cael ei hariannu gan

	ffi'r drwydded. Cynhwysir yn adran 5.5.
ii. Hyrwyddo a defnyddio'r rhyngrwyd i ddatblygu cydberthynas ddyfnach â thalwyr ffi'r drwydded ac atgyfnerthu atebolrwydd. Un o nodau'r gwasanaeth ar-lein yw galluogi talwyr ffi'r drwydded i roi eu sylwadau i'r BBC ar raglenni, gwasanaethau a strategaethau presennol ynghyd â rhai'r dyfodol. Nod y gwasanaeth yw datblygu cydberthynas ddyfnach â chynulleidfaoedd y BBC, drwy eu galluogi i gyfathrebu, cyfnewid syniadau a phrofiadau o fewn cymunedau yn ogystal â galluogi'r rhai sy'n rhannu diddordebau i gyfathrebu a thrwy alluogi cynulleidfaoedd i weld cynnwys a chyfrannu ato. Felly, mae meithrin llythrennedd y cyfryngau a darparu mwy o opsiynau rhoi adborth cynhwysol sy'n hawdd eu defnyddio yn flaenoriaethau brys. Bydd ymagwedd fwy cynhwysol sy'n targedu llythrennedd y cyfryngau hefyd yn hyrwyddo'r nod o greu cydberthnasau dyfnach ar sail cymunedau a chynnwys. Y blaenoriaethau o dan yr elfen hon o'r	Cynhwysir yn adran 1, cylch gwaith. Cynhwysir yn adran 4. Cynhwysir yn adran 5.3. Cynhwysir yn adran 5.1.

cylch gwaith yw (crynhoir yma): • Ymagwedd symlach a mwy cynhwysol - canfod ffyrdd symlach o gasglu ac adlewyrchu adborth gan ddefnyddwyr, a datblygu cromlin ddysgu o ran sut i ddefnyddio gwasanaethau rhyngweithiol i wella llythrennedd y cyfryngau ymhlith ein cynulleidfaoedd.	Cynhwysir ar ffurf gryno yn adran 4.
• Sicrhau bod cynnwys ar gael yn haws: drwy ddarparu archifau cynnwys at ddefnydd creadigol	
• Mwy o gymorth i gymunedau defnyddwyr: cefnogi arloesedd cymdeithasol drwy annog ymdrechion defnyddwyr i greu safleoedd a phrosiectau. Bydd y BBC yn ymrwymedig i ddefnyddio safonau agored a fydd yn galluogi defnyddwyr i ganfod cynnwys y BBC ac ailbennu pwrpas iddo mewn ffyrdd mwy hyblyg	Crybwyllir yn adran 4.
• Opsiynau adborth mwy ffurfiol i'r Llywodraethwyr. Er mwyn atgyfnerthu cysylltiad y Llywodraethwyr â thalwyr ffi'r drwydded, bydd gwefan benodol ar gyfer Llywodraethwyr y BBC.	Cynhwysir yn adran 5.3.
• Bydd y BBC yn parhau i archwilio potensial y rhyngrwyd i weithredu fel prif lwyfan ar gyfer adborth a deialog cynulleidfaoedd gyda'r BBC	
	Nid yw gwefannau'r Llywodraethwyr/Ymddiriedolaeth y BBC yn ffurfio rhan o bbc.co.uk, felly nis

	crybwyllir yn y Drwydded Gwasanaeth hon. Cynhwysir yn adran 4.
iii. Darparu man cychwyn ar y rhyngrwyd i dalwyr ffi'r drwydded ddatblygu eu defnydd o'r cyfrwng newydd, a gweithredu fel canllaw y gellir ymddiried ynddo i'r amgylchedd cyfryngau newydd. Bydd y BBC yn cefnogi ac yn annog talwr ffi'r drwydded yn yr amgylchedd ar-lein drwy dri maes buddsoddi neu weithgarwch. (i) Sicrhau bod cynnwys y BBC ar gael mor eang â phosibl a'i fod mor hawdd i'w lywio â phosibl. (ii) Gweithredu fel canllaw y gellir ymddiried ynddo drwy gynnig cyswllt amlach a mwy cyson â chynnwys a gwasanaethau a ddarperir gan eraill ar y rhyngrwyd, drwy ein peiriant chwilio a thrwy ddarparu cysylltiadau drwy ein gwasanaeth ein hun. Integreiddio'n well â gwasanaethau y tu allan i'r BBC. Yn ei rôl fel canllaw y gellir ymddiried ynddo, bydd bbc.co.uk yn cyfeirio cynulleidfaoedd at gynnwys a gwasanaethau a ddarperir gan eraill. Cyflawnir hyn yn rhannol drwy barhau i ddarparu gwasanaeth chwilio'r we sy'n diogelu defnyddwyr rhag safleoedd a deunydd amhriodol neu sarhaus tra'n eu galluogi i ganfod yn union yr hyn maent yn chwilio amdano yn gyflym ac yn effeithlon.	Cynhwysir yn adran 1, cylch gwaith. Cynhwysir yn adran 4. Cynhwysir yn adran 4. Cynhwysir yn adran 4. Cynhwysir yn adran 4.

Bydd y BBC yn darparu gwasanaeth rhyngrwyd mwy agored, gan gyfeirio cynulleidfaoedd at gynnwys a gwasanaethau allanol o ansawdd uchel pan eu bod ar gael.	
(iii) Cynyddu ymdrechion i godi lefelau llythrennedd y cyfryngau ymhlith poblogaeth y DU, gan helpu i gael cynulleidfaoedd ar-lein ac, unwaith eu bod yno, eu helpu i ddysgu sut i bennu cywirdeb a gwerth cynnwys ar y rhyngrwyd.	Cynhwysir yn adran 4.
Bydd y BBC yn buddsoddi mewn prosiectau llythrennedd y cyfryngau. Bydd gwasanaeth ar-lein y BBC yn anelu at wneud cyfraniad sylweddol tuag at DU gwbl ddigidol, gan barhau i roi pwyslais ar gyfrannu'n uniongyrchol at newid i ddigidol.	Cynhwysir yn adran 5.1.
Mae'r sefydliad yn ymrwymedig i weithio gydag eraill i wneud gwasanaethau ar-lein a band eang yn fwy fforddiadwy a hygyrch.	Cynhwysir yn adran 5.1.
Bydd y BBC yn canolbwyntio'n arbennig ar y cynulleidfaoedd hynny sy'n wynebu'r risg o gael eu gadael ar ôl yn yr oes ddigidol.	
Yn bwysicaf oll efallai, bydd y BBC yn hyrwyddo'r defnydd o wasanaethau ar-lein a band eang drwy fuddsoddi mewn gwasanaethau nodedig.	Cynhwysir yn adran 5.1.

	Cynhwysir yn adran 5.1. Cynhwysir yn adran 4.
iv. Ar bob adeg cydbwyso'r potensial am werth cyhoeddus yn erbyn y risg o gael effaith negyddol ar y farchnad. Mae'r Llywodraethwyr yn ymrwymedig i sicrhau bod y sefydliad yn ystyried ac yn cydbwyso'r potensial am werth cyhoeddus drwy'r amser yn erbyn y risg o gael effaith negyddol ar gyfranogwyr eraill yn y farchnad. Bydd Rheolwyr y BBC yn cynnal eu hasesiadau gwerth cyhoeddus eu hunain o bob datblygiad newydd arfaethedig, fel lansio safle newydd neu ehangu safle sy'n bodoli eisoes yn sylweddol, a bydd yn adolygu'r gwasanaeth parhaus yn rheolaidd, er mwyn sicrhau bod y cydbwysedd yn gywir o hyd rhwng gwerth cyhoeddus ac unrhyw effaith bosibl ar y farchnad. Bydd gwaith comisiynu allanol yn helpu'r BBC i feincnodi ei weithrediadau cynhyrchu mewnol, gan bennu llinell sylfaen ar gyfer effeithlonrwydd. Bydd cyflwyno adroddiadau manylach ar berfformiad i'r Llywodraethwyr a'r farchnad yn galluogi proses graffu allanol well ac yn cynyddu'r pwysau i wella	Cynhwysir yn adran 1, cylch gwaith. Cynhwysir yn adran 4. Mae'r ymrwymiadau hyn wedi cael eu disodli gan ofynion yn y Siarter a'r Cytundeb newydd a adlewyrchir ym mhrotocolau Ymddiriedolaeth y BBC. Cynhwysir yn adran 5.4.

effeithlonrwydd. Un o elfennau canolog hyn fydd targedu gwelliannau parhaus yn y meincnodau gwerth am arian allweddol, gan gynnwys y gost fesul defnyddiwr.	Cynhwysir y gost fesul defnyddiwr fel metrig yn Atodiad I.
Yn y maes Ffordd o Fyw, mae gwasanaeth y BBC yn canolbwyntio'n fwy ar ddarparu cynnwys sydd â chyswllt agos â rhaglenni. Mae'r safle Ffilmiau bellach yn canolbwyntio ar addysgu pobl am broses greadigol gwneud ffilmiau ac ar alluogi cynulleidfaoedd i rannu eu ffilmiau eu hunain a chynnwys sy'n gysylltiedig â ffilmiau.	Cynhwysir yn adran 5.2.
Bydd safleoedd Lleol i Mi yn gweithio'n fwy effeithiol gyda darparwyr newyddion a gwybodaeth leol eraill, gan ganfod neu rannu cynnwys a lleihau achosion o ddyblygu lle ceir gorgyffwrdd, fel amserlenni lleol.	Cynhwysir yn adran 5.4. Cynhwysir yn adran 5.3.
Adran 3. Gweithio'n well gyda'r diwydiant cyfryngau newydd Bydd tair menter arall yn anelu at wella cydberthnasau'r BBC â marchnad y rhyngrwyd.	
(i) Cynyddu cyfran cynnwys ar-lein cymwys y BBC a ddaw o ffynonellau y tu allan i'r BBC i lefel ofynnol o 25% yn ôl gwerth erbyn 2006/07. Bydd y Llywodraethwyr yn pennu'r targed hwn ac yn adrodd ar berfformiad yn flynyddol.	Cynhwysir yn adran 5.4 fel Amod ac ymrwymiad.

(ii) Model newydd mwy systematig o gysylltu cynnwys y BBC â chysylltiadau gan drydydd partïon sy'n olygyddol berthnasol, gan roi mwy o bwyslais ar bbc.co.uk fel man cychwyn i daith ar-lein y gynulleidfa.	Cynhwysir yn adran 5.4.
Yr allwedd i gyflawni hyn fydd ymagwedd fwy systematig a thryloyw, gan gynnwys meini prawf cyhoeddedig, defnydd o wasanaeth chwilio'r we allanol bbc.co.uk, ffyrdd newydd o gyflwyno cysylltiadau allanol i gynulleidfaoedd i'w hannog i deithio y tu hwnt i bbc.co.uk.	Mae'r BBC wedi cyhoeddi meini prawf ond mae'r rhain ar wahân i'r Drwydded Gwasanaeth.
Bydd Rheolwyr y BBC yn pennu targedau ar gyfer defnydd cynulleidfaoedd o gysylltiadau allanol o bob rhan o bbc.co.uk a bydd y Llywodraethwyr yn adolygu perfformiad. Bydd y Llywodraethwyr yn archwilio ac yn cyhoeddi nifer y cysylltiadau allanol i helpu i ddangos pa mor effeithiol y mae'r BBC yn gweithredu fel canllaw y gellir ymddiried ynddo i'r we.	Cynhwysir yn adran 5.4.
(iii) Ymagwedd newydd tuag at bartneriaethau yn amgylchedd y rhyngrwyd, y bwriedir iddi roi mwy o werth cyhoeddus i dalwyr ffi'r drwydded ac i sicrhau safle'r BBC fel adnodd agored i sefydliadau eraill, gan eu helpu i gyflawni eu nodau.	
Bydd rheolwyr Cyfryngau Newydd yn rhoi blaenoriaeth i brosiectau (partneriaeth) sy'n: sicrhau bod cynnwys y BBC ar gael mor eang â phosibl ar draws llwyfannau; cysylltu cynulleidfaoedd y BBC â'r ystod ehangaf	Crybwyllir yn adran 5.4, er bod Cod Partneriaeth y BBC yn cael ei gyhoeddi ar wahân felly ni chynhwysir manylion yn y Trwyddedau Gwasanaeth.

o dalent a chreadigrwydd o'r DU; a chefnogi arloesedd a thwf ym marchnad ar-lein y DU. Bydd y BBC yn ehangu'r llyfrgell cynnwys sydd ar gael i'w defnyddio ar wefannau trydydd parti ac yn symleiddio'r prosesau y mae angen i eraill eu dilyn i ddefnyddio deunydd y BBC ymhellach.	Cynhwysir yn adran 5.4.
Bydd Cyfryngau Newydd y BBC yn gwneud yr ymrwymiadau canlynol, yn dilyn Cod Partneriaeth eang y BBC: • Cyfathrebu rheolaidd ac amserol - hysbysu partneriaid o gynlluniau, darparu sianelau adborth dilys ac ymateb i ymholiadau'n amserol • Cyswllt cyson o fewn y BBC - darparu cynrychiolydd cyson o fewn y Cyfryngau Newydd ar draws pob partneriaeth, a rheolwyr cyfrif pan fo maint prosiect yn galw am hynny • Amcanion eglur - yn fewnol a gyda'r partner. Dylai amcan y prosiect fod yn glir a chytûn o'r cychwyn • Deall eu busnes - addysgu'r BBC am gymhelliant busnes partneriaid a gwerthfawrogi'r canlyniad o safbwynt partneriaid, nid dim ond o safbwynt y BBC • Proses partneriaeth ffurfiol - cofnodi ac olrhain cyfarfodydd cyn cymeradwyo contract er mwyn egluro ymrwymiadau a'r	Ni chynhwysir y telerau ar gyfer darparu cynnwys i wasanaethau nad ydynt yn rhai'r BBC yn y Drwydded Gwasanaeth. Cynhwysir yr ymrwymiadau hyn yng Nghod Partneriaeth y BBC ac felly nis cynhwysir yn y Drwydded Gwasanaeth hon.

hyn i'w gyflawni gan y ddwy ochr • Pennu disgwyliadau realistig - dechrau'n fach i brofi llwyddiant a datblygu i brosiectau mwy uchelgeisiol • Cyfyngu ar fiwrocratiaeth - adolygu'r gofynion cyfreithiol i greu dogfennaeth yn unol â'r farchnad	
Adran 4. Llywodraethu • Bydd un Drwydded Gwasanaeth neu fwy yn nodi sut y bydd bbc.co.uk yn gweithredu er budd y cyhoedd • Cynhelir arolwg annibynnol cynhwysfawr o bbc.co.uk o leiaf unwaith bob pum mlynedd, a ategir gan arolwg canol tymor ar ôl tair blynedd sy'n cydnabod yr heriau penodol a gyflwynir gan gyflymder datblygiadau yn y farchnad ar-lein • Caiff prawf gwerth cyhoeddus ei gynnal gan y Llywodraethwyr pan fydd Rheolwyr y BBC yn cynnig unrhyw newidiadau sylweddol i bbc.co.uk	Mae Trwydded Gwasanaeth bbc.co.uk yn cyflawni'r ymrwymiad hwn. Erbyn hyn nodir yr ymrwymiad fel cymal yng Nghytundeb y BBC ac fe'i hailadroddir ym mhrotocol Ymddiriedolaeth y BBC ar Wasanaethau Cyhoeddus y DU a'r Fframwaith ar gyfer Gweithredu Trwyddedau Gwasanaeth. Mae'r ddwy ddogfen ar gael ar wefan Ymddiriedolaeth y BBC. Erbyn hyn nodir yr ymrwymiad fel cymal yng Nghytundeb y BBC ac fe'i hailadroddir yn Llawlyfr Prawf Gwerth Cyhoeddus Ymddiriedolaeth y BBC.